CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

CYFADRAN ADDYSG A HAMDDEN

POLISI DIM YSMYGU ARGYMELLEDIG AR GYFER STAFF A LEOLIR MEWN YSGOLION

GORFFENNAF 2006

MYNEGAI

ADRAN **RHIF TUDALEN**

ADRAN 1	**CYFLWYNIAD**	**3**
ADRAN 2	**NODAU/EGWYDDORION Y POLISI**	**4**
ADRAN 3	**CWMPAS Y POLISI**	**5**
ADRAN 4	**DIM YSMYGU**	**6**
ADRAN 5	**DARPARIAETHAU'R POLISI**	**7**
ADRAN 6	**HYSBYSEBU**	**8**
ADRAN 7	**RHOI'R GORAU I YSMYGU**	**9**
ADRAN 8	**ACHOSION O DORRI'R POLISI**	**10**
ADRAN 9	**ADOLYGU/MONITRO'R POLISI**	**11**
ATODIAD A	**CWESTIYNAU CYFFREDIN**	

NODER

Lle bynnag y defnyddir Rheolwr/wraig yn y polisi hwn, golygir Pennaeth, Rheolwr/wraig Llinell, Goruchwyliwr/wraig, Swyddog â Gofal neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros gyflogeion trwy eu gwaith.

Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio'r Polisi Corfforaethol fel ei sylfaen ac fe'i hargymhellir i Gyrff Llywodraethu ei fabwysiadu. Gellir ond cynnig cymorth o ran rheoli materion mewn perthynas â'r mater dan sylw yn y polisi i ysgolion lle y mae polisïau a gweithdrefnau argymelledig yr AALl wedi'u mabwysiadu ac yn unol ag unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Gwasanaethau Personél Addysg a allai fod ar waith ar y pryd.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras.

At ddiben y ddogfen hon, mae'r term cyflogai yn cynnwys pob aelod o staff a leolir mewn ysgolion a gyflogir gan y Corff Llywodraethu a'r aelodau hynny o staff sy'n gweithio'n bennaf mewn ysgolion, ond sy'n cael eu hariannu'n ganolog gan yr AALl. Wrth ymdrin â materion mewn perthynas â'r grŵp diwethaf hwn o staff, disgwylir y bydd uwch swyddog enwebedig o'r maes gwasanaeth priodol yn rheoli'r broses gan ymgynghori â Phennaeth yr ysgol gynnal.

1. ADRAN 1 - CYFLWYNIAD

1.1 Yn 1996, cyflwynodd y Cyngor Bolisi Dim Ysmygu. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi datblygu safiad mwy rhagweithiol ar faterion iechyd, er enghraifft, Grŵp Iechyd Cyflogeion a Strategaeth Iechyd Cyflogeion. Fel rhan o'r Strategaeth hon, mae'r Polisi Dim Ysmygu wedi'i adolygu a'i ddiwygio.

1.2 Dylid croesgyfeirio'r polisi â pholisïau/strategaethau craidd canlynol y Cyngor: -

- Polisi Iechyd Galwedigaethol
- Strategaeth Iechyd Cyflogeion
- Polisïau Iechyd a Diogelwch

2. ADRAN 2 - NODAU/EGWYDDORION Y POLISI

2.1 Mae'r Cyngor/Corff Llywodraethu yn ymrwymedig i wella iechyd a lles pob un o'i gyflogeion ac i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Ar yr un adeg, mae'r Cyngor yn gweithio gydag eraill i wella iechyd y gymuned leol, y mae llawer ohonynt hefyd yn gyflogeion a'u teuluoedd.

2.2 Nod y polisi yw: -

- Darparu amgylchedd di-fwg iach a chyffyrddus i bob un o'i gyflogeion, ei ymwelwyr a defnyddwyr ei wasanaethau.

- Diogelu iechyd pobl nad ydynt yn ysmygu drwy ddileu "mwg ail-law".

- Helpu i ddiogelu iechyd yr ysmygwr trwy gynnig cymorth a chyngor i'r cyflogeion hynny sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu.

3. ADRAN 3 - CWMPAS Y POLISI

3.1 Mae'r polisi'n gymwys i bob un o gyflogeion y Cyngor ac i Aelodau Etholedig. Bydd yn ofynnol i gontractwyr, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau hefyd gydymffurfio â'r polisi.

3.2 Mae'n cwmpasu: -

(1) Holl safleoedd y Cyngor yn cynnwys ei ardaloedd mynediad a meysydd parcio/tir cyfagos.

(2) Holl gerbydau'r Cyngor yn cynnwys cerbydau a brydlesir a cherbydau cyflogeion eu hunain pan fyddant yn ymwneud â busnes y Cyngor ac yn cludo cyflogeion eraill, Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaethau, ac ati.

(3) Holl ddigwyddiadau/gweithgareddau'r Cyngor p'un a gânt eu cynnal ar/yn safleoedd y Cyngor ai peidio.

(4) Holl gartrefi defnyddwyr gwasanaethau neu wrth ymweld â safleoedd busnes eraill.

(5) Holl safleoedd y Cyngor a logir neu a brydlesir i aelodau'r cyhoedd yn y byrdymor.

3.3 Bydd yr eithriadau canlynol yn gymwys: -

(1) Sefydliadau preswyl a chyfleusterau gofal dydd y Cyngor. Dim ond cleientiaid a'u hymwelwyr/ffrindiau, yr ystyrir mai'r sefydliadau hyn yw eu cartrefi, a gaiff ysmygu mewn mannau ysmygu dynodedig. Yn y rhain, mae'n rhaid sefydlu mannau dim ysmygu ar wahân clir at ddefnydd cyflogeion.

(2) Ac eithrio lle y mae Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu'r polisi hwn, Ysgolion - Cyrff Llywodraethu Ysgolion sy'n gyfrifol am yr adeiladau, y cyfleusterau a'r tir dan eu rheolaeth a byddant yn sefydlu eu polisïau eu hunain.

(3) Cyflogeion y mae angen iddynt fyw ar safleoedd y Cyngor, yn y mannau hynny a ddynodir fel eu cartrefi.

(4) Safleoedd Cyngor a logir neu a brydlesir i aelodau'r cyhoedd yn yr hirdymor.

4. ADRAN 4 - DIM YSMYGU

4.1 Bydd yr holl ardaloedd a gwmpesir yn 3.2 yn ardaloedd dim ysmygu. Ystyrir yn awtomatig bod y polisi hwn yn cael ei ymgorffori yng Nghontractau Cyflogaeth cyflogeion. -

Cyflogeion Newydd -	O'r dyddiad penodi
Cyflogeion Presennol -	O ddyddiad mabwysiadu'r polisi gan y Corff Llywodraethu.

5. ADRAN 5 - DARPARIAETHAU'R POLISI

5.1 Darpariaeth Gwasanaeth (3.2.4)

5.1.1 Ni chaiff ysmygu ei ganiatáu pan fydd cyflogeion yn y gwaith ac yn delio â defnyddwyr gwasanaethau. Gallai hyn fod yng nghartref defnyddiwr y gwasanaethau neu mewn unrhyw gyfleuster arall. Caiff cyflogeion eu hatgoffa yn arbennig o bwysigrwydd hyn wrth ddelio â defnyddwyr iau gwasanaethau y dylent fod yn gosod esiampl ar eu cyfer.

5.2 Ymweld ag Adeiladau nad ydynt yn rhai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac ati. (3.2.4)

5.2.1 Mae'n rhaid i gyflogeion barchu polisïau dim ysmygu eraill pan fyddant yn ymwneud â busnes y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys: -

- Ymweld ag adeiladau Cyngor eraill.
- Ymweld â safleoedd busnes eraill.
- Pan fyddant ar gyrsiau hyfforddi ac ati.

5.3 Y Defnydd o Gyfleusterau/Gosodiadau'r Cyngor (3.2.5)

5.3.1 Ystyrir ystafelloedd, cyfleusterau ac ati a osodir yn y byrdymor byr fel mannau dim ysmygu. Mae'n rhaid dwyn hyn at sylw'r llogwr. Mae hyn yn cynnwys Clwb y Staff yn y Swyddfeydd Dinesig, Pontllanfraith.

5.4 Canolfannau Hamdden/Canolfannau Addysg i Oedolion/Sefydliad y Glowyr, y Coed Duon (3.2.1)

5.4.1 Bydd pob un o'r rhain yn fannau dim ysmygu, yn cynnwys unrhyw farrau.

5.5 Cerbydau (3.2.2)

5.5.1 Mae holl gerbydau'r Cyngor (yn cynnwys cerbydau a brydlesir) yn fannau dim ysmygu. Ni ddylai cyflogeion ac eraill sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain wrth ymwneud â busnes y Cyngor ysmygu pan fyddant yn cludo cyflogeion eraill, defnyddwyr gwasanaethau, Aelodau Etholedig, ac ati.

5.6 Cyfleusterau Ysmygu Presennol (4)

5.6.1 Ni fydd mannau/ystafelloedd ysmygu dynodedig presennol ar gael o 1af Ionawr 2007. Ni fydd egwyliau ysmygu ar gael ar ôl yr adeg hon ychwaith. Fodd bynnag, y tu allan i'r amserau craidd hyblyg (lle y bo'n gymwys) neu yn ystod egwyliau y cytunwyd arnynt, gall cyflogeion y caniateir iddynt i adael y gweithle ysmygu ar yr amod nad yw hyn yn lleoliad a gwmpesir gan Adran 3.2.

6. ADRAN 6 - HYSBYSEBU

6.1 Caiff pob safle ac ati ei nodi'n glir fel mannau dim ysmygu ac mae'n rhaid gwneud cyflogeion newydd a gaiff eu recriwtio i'r Cyngor yn ymwybodol o'r polisi hwn yn gynnar, naill ai yn ystod y cyfweliad neu cyn hynny. Lle y bo'n briodol, bydd hysbysebion recriwtio yn datgan na chaniateir ysmygu gan yr Ysgol/Cyngor. Hysbysir aelodau'r cyhoedd hefyd o'r polisi hwn drwy Gyhoeddiad y Cyngor, gwefan ac ati.

7. ADRAN 7 - RHOI'R GORAU I YSMYGU

7.1 Cyn 1af Ionawr 2007, caniateir i gyflogeion gael amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith â thâl i fynychu dosbarthiadau cydnabyddedig neu therapïau cydnabyddedig eraill er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu. Mae cyngor a chymorth ar y rhain ar gael gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol neu Wasanaethau Personél Addysg.

8. ADRAN 8 - ACHOSION O DORRI'R POLISI

8.1 Gall achosion o dorri'r polisi gan gyflogeion arwain at gymryd camau disgyblu.

9. ADRAN 9 - ADOLYGU/MONITRO'R POLISI

9.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu bob dwy flynedd o ddyddiad ei argymell gan yr AALl.

9.2 Mae Penaethiaid/Cadeiryddion Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer gweithredu, rheoli a monitro'r polisi hwn yn barhaus ac yn effeithiol.

GORFFENNAF 2006

Polisi Dim Ysmygu - Staff a Leolir mewn Ysgolion (Yn Weithredol o 1 Ionawr 2007)
Cwestiynau Cyffredin

C **Ni chaniateir i gyflogeion ysmygu yn eu cerbydau eu hunain pan fyddant yn ymwneud â busnes yr Ysgol/Cyngor ac yn cludo cyflogeion eraill, Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaethau, ac ati. Fodd bynnag, a gânt ysmygu yn eu cerbydau eu hunain tra'u bod yn ymwneud â busnes yr Ysgol/Cyngor os ydynt ar eu pennau eu hunain?**

A Cânt, gall cyflogai ysmygu yn ei gerbyd ei hun tra'i fod yn ymwneud â busnes y Cyngor os yw ar ei ben ei hun. Os bydd cyflogai yn penderfynu ysmygu, dylai sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn gyfreithlon iddo wneud hynny.

C **A fyddai arosfannau bws a gaiff eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor ac sy'n berchen i'r Cyngor, yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o dir y Cyngor?**

A Wrth ystyried nodau/egwyddorion y polisi (adran 2.2), ni fyddai arosfannau bws yn cael eu cwmpasu o dan y polisi Dim Ysmygu presennol. Fodd bynnag, efallai y bydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn gwahardd ysmygu ym mhob man cyhoeddus, a allai gynnwys arosfannau bws.

C. **Rwyf bellach yn mynychu dosbarthiadau rhoi'r gorau i ysmygu a drefnir gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol. A ganiateir i mi gael amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i fynychu'r dosbarthiadau?**

A. Un o nodau'r polisi yw helpu i ddiogelu iechyd yr ysmygwr trwy gynnig cymorth a chyngor i'r cyflogeion hynny sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu. Caniatawyd amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith â thâl i fynychu dosbarthiadau cydnabyddedig neu therapïau cydnabyddedig eraill er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu cyn 1 Ionawr 2006. Caniateir amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl i gyflogeion sy'n mynychu dosbarthiadau rhoi'r gorau i ysmygu gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol, hyd at 1 Ebrill 2006.

C **A yw'r polisi'n gymwys i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n ysmygu yn eu cartrefi eu hunain pan fo cyflogeion y Cyngor yn ymweld â'u cartref? A allai cyflogai wrthod mynd i mewn i eiddo os yw'r preswyliwr yn ysmygu? Os na, a allai'r cyflogai hwnnw wneud hawliad yn erbyn y Cyngor am ddisgwyl iddo neu ei gwneud yn ofynnol iddo beryglu ei iechyd?**

A Gallai'r cwestiwn hwn fod yn fater i reolwr llinell y cyflogai unigol, yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau ar y pryd. Efallai y bydd y rheolwr llinell yn penderfynu cynnal asesiad risg i ystyried iechyd y cyflogai, faint o amser yr amlygwyd ef i fwg sigarét ac ati a chael cyngor gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol. Gallai'r rheolwr llinell hefyd ystyried a fyddai'n rhesymol gofyn i rywun arall ymweld â'r

cartref, er enghraifft, os yw'r cyflogai'n dioddef o asthma . Bydd yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau ar y pryd.

C **A fyddai'r polisi'n gymwys i gyfarfodydd y Cyngor nas cynhelir ar safleoedd y Cyngor? Er enghraifft, Cyfarfod Cymunedau'n Gyntaf mewn tŷ tafarn.**

A O dan y Polisi Dim Ysmygu (adran 3), dylai'r cyfarfod fod yn gyfarfod dim ysmygu, mewn ardal Dim Ysmygu o'r tŷ tafarn os oes modd. Efallai y bydd deddfwriaeth yn y dyfodol yn atal ysmygu mewn tai tafarn.

C **Beth yw "egwyl y cytunwyd arni" ac a yw'r rhain yn swyddogol? Os ydynt yn answyddogol, onid yw hyn yn amlygu cyflogeion i'r posibilrwydd o gamau disgyblu?**

A Byddai hwn yn fater i reolwr llinell y cyflogai a'r Cynllun Oriau Gwaith Hyblyg (lle y bo'n gymwys). Os yw'r rheolwr llinell yn cytuno ar egwyl, y tu allan i'r oriau craidd hyblyg, byddai'r cyflogai yn clocio i mewn ac allan i adlewyrchu'r amser yr oedd i ffwrdd o'i weithle yn unol â'r Cynllun Oriau Gwaith Hyblyg. Dylai cyflogeion ddefnyddio'r cyfleuster egwyl ysmygu, nad yw wedi'i ddileu o'r offer hyblyg. Gall cyflogeion y caniateir iddynt adael y gweithle ysmygu ar yr amod nad yw hyn mewn lleoliad a gwmpesir gan Adran 3.2 o'r polisi.

C **Mae'r polisi'n datgan yn glir fod ysmygu bellach wedi'i wahardd, nid dim ond yn adeiladau'r Cyngor ond hefyd ar dir y Cyngor, meysydd parcio ac ati. A yw gofynion y polisi yn gymwys i aelodau'r cyhoedd?**

A Efallai y bydd y polisi Dim Ysmygu yn effeithio ar aelodau'r cyhoedd, a diffinnir hyn yn y polisi. Er enghraifft, pe bai aelod o'r cyhoedd yn ymweld â Swyddfeydd y Cyngor neu'n mynychu digwyddiad y Cyngor, ni fyddent yn gallu ysmygu.

C **Sut y dylid cymhwyso'r polisi lle y mae hawl tramwy cyhoeddus yn croesi tir y Cyngor? Er enghraifft, canolfan tai gwarchod neu Ganolfan Weithgareddau Ynys Hywel.**

A Mae'r rheolau o ran cyflogeion y Cyngor wedi'u datgan yn glir yn y polisi. O ran mannau cyhoeddus, p'un a ydynt yn feysydd parcio neu'n llwybrau troed, ni allwn atal aelodau'r cyhoedd rhag ysmygu yn y mannau cyhoeddus hynny wrth iddynt eu defnyddio. Gellid codi arwyddion yn nodi bod y man yn fan dim ysmygu ond ni fyddai'r gwaharddiad ysmygu yn gyfreithiol orfodadwy ar hyn o bryd.

C **A yw'r polisi Dim Ysmygu yn gymwys i safleoedd a brydlesir, er enghraifft Canolfannau Cymunedol a'r Ganolfan Fusnes yn Nhredomen.**

A Byddai'r polisi Dim Ysmygu yn gymwys i unrhyw gyflogeion y Cyngor sy'n gweithio yn y safleoedd.

Llywodraethir Canolfannau Cymunedol gan amrywiaeth o drefniadau prydles a threfniadau rheoli, nad yw'r polisi Dim Ysmygu yn gyfreithiol orfodadwy oddi tanynt. Fodd bynnag, mae grwpiau rheoli Canolfannau Cymunedol yn cael eu hannog i fabwysiadau'r polisi.

O ran safleoedd eraill sy'n berchen i'r Cyngor ond a brydlesir i drydydd partïon, o dan delerau rhai prydlesi, ni chaniateir ysmygu yn yr adeilad. Fodd bynnag, efallai y caiff ysmygu ei ganiatáu y tu allan i'r adeilad mewn ardaloedd mynediad a meysydd parcio cyfagos.

C **Sut y bydd y polisi Dim Ysmygu yn effeithio ar ymwelwyr safleoedd a redir gan y Cyngor, er enghraifft meysydd carafannau teithiol neu wersylla, ardaloedd cefn gwlad sydd cyfagos a pharciau gwledig eraill? Er enghraifft, Rhodfa Coedwig Cwm-carn a Pharc Cwm Darren.**

A Mae'r polisi Dim Ysmygu yn gymwys i gyflogeion y Cyngor sy'n gweithio ar y safle a hefyd i'r maes carafannau/gwersylla a'r tir o'i amgylch. Efallai y dylai'r rheolwyr safle gytuno ar sut y caiff y polisi ei weithredu'n gyson ar draws yr ardaloedd amrywiol o fewn y fwrdeistref.

Mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth arall yn gymwys i feysydd carafannau/gwersylla, y gallai fod angen ei chyfuno â pholisi'r Cyngor. Efallai y bydd rheolau'r safle yn caniatáu i ymwelwyr ysmygu yn ardal eu carafán neu babell gan y gallai hyn gyfateb i sefyllfa byw ar safleoedd y Cyngor.

C. **Pa reolau o ran ysmygu a ddylai fod yn gymwys pan fo cyflogeion wedi'u lleoli ar safle a brydlesir gan y Cyngor ac a rennir â chwmnïau preifat allanol?**

A. Prydlesir y safleoedd gan y Cyngor ac o dan y polisi byddent felly yn cael eu dosbarthu fel safleoedd y Cyngor, gan gynnwys eu hardaloedd mynediad a'u meysydd parcio/tir cyfagos.

O 1 Ionawr 2006, os bydd mannau ysmygu ar gael o hyd ar y safle i sefydliadau eraill sy'n rhannu'r adeilad, ni ddylai cyflogeion y Cyngor ddefnyddio'r mannau ysmygu.

C. **Sut y bydd y polisi yn effeithio ar ddigwyddiadau preifat a gynhelir ar safleoedd y Cyngor, er enghraifft yn Llancaeach Fawr a Chanolfannau Hamdden?**

A. Ystyrir bod ystafelloedd, cyfleusterau ac ati a osodir yn y byrdymor i gyd yn fannau dim ysmygu. Mae'n rhaid dwyn hyn at sylw'r llogwyr.

Dylai'r man dim ysmygu hefyd gynnwys ardaloedd mynediad a meysydd parcio/tir cyfagos.

Pe bai un o'r meysydd parcio cyfagos yn faes parcio cyhoeddus a oedd ar gael i aelodau'r cyhoedd at ryw ddiben arall, er enghraifft siopa neu ymweld ag atyniad arall, byddai aelodau'r cyhoedd yn cael ysmygu yn yr ardal honno.

C. **A all cleientiaid/defnyddwyr gwasanaethau sy'n ymweld â chyfleusterau Canolfan Ddydd ysmygu?**

A. Gallant, mae sefydliadau preswyl a chyfleusterau gofal dydd y Cyngor wedi'u heithrio rhag y Polisi Dim Ysmygu. Fodd bynnag, dim ond cleientiaid a'u hymwelwyr/ffrindiau, yr ystyrir bod sefydliadau preswyl a chanolfannau dydd yn gartrefi iddynt, a gaiff ysmygu mewn mannau ysmygu dynodedig. Yn y rhain, mae'n rhaid sefydlu mannau dim ysmygu ar wahân clir at ddefnydd cyflogeion.